



Department for
Digital, Culture,
Media & Sport



UK CITY OF CULTURE

Dinas Diwylliant y Deyrnas Unedig 2025

Cais llawn: canllawiau i gynigwyr ar y rhestr hir

Cynnwys

Cyflwyniad	3
Canllawiau	4
Nodau ac amcanion Dinas Diwylliant y Deyrnas Unedig	4
Beth rydym yn ei olygu wrth sôn am ddiwylliant?	6
Pa lefydd all wneud cais?	6
Teitl, nod masnach a brand ‘Dinas Diwylliant y Deyrnas Unedig 2025’	6
Y cyfryngau a chyhoedduswydd	7
Rhannu data a thryloywder	7
Cyllid	8
Dysgu gwersi gan Ddinasoedd Diwylliant blaenorol y Deyrnas Unedig	8
Cyfrannu at ein hamcanion amgylcheddol a sero net	9
Cysondeb â mentrau eraill y llywodraeth	10
Y broses cynnig a dethol	10
Amserlen gryno	11
Y panel cyngori arbenigol	12
Gofynion fformat	13
Meini prawf asesu	13
Tabl 2 – cwestiynau’r cais llawn	14

Cyflwyniad

Mae'r canllawiau hyn wedi cael eu llunio gan yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) i helpu'r llefydd sydd ar y rhestr hir a lwyddodd yn y cam datgan diddordeb yng nghystadleuaeth Dinas Diwylliant y Deyrnas Unedig 2025 i gyflwyno eu ceisiadau llawn.

Mae Dinas Diwylliant y Deyrnas Unedig yn rhaglen ar gyfer y Deyrnas Unedig gyfan, a ddatblygwyd ar y cyd â'r gweinyddiaethau datganoledig yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Cynhelir y gystadleuaeth gan DCMS, ac mae'n gwahodd llefydd ledled y Deyrnas Unedig i gyflwyno eu gweledigaeth ar gyfer adfywio sy'n cael ei arwain gan ddiwylliant bob pedair blynedd. Derry/Londonderry oedd Dinas Diwylliant gyntaf y Deyrnas Unedig yn 2013, ac erbyn hyn, mae'r gystadleuaeth wedi ennill ei phlwyf yng nghalendr diwylliannol y Deyrnas Unedig.

Gall gwneud cynnig am y teitl yn ei rinwedd ei hun gael effaith gadarnhaol iawn ar le - gan helpu i ddod â phartneriaid at ei gilydd a datblygu arweinyddiaeth ddiwylliannol strategol, arddangos a gwella mynediad at eich treftadaeth, eich celfyddydau a'ch diwylliant lleol, a mynegi eich uchelgeisiau ar gyfer y dyfodol. Dyma pam ein bod wedi cyflwyno'r cam datgan diddordeb, ac am y tro cyntaf, rydym yn falch iawn o allu dyfarnu grantiau bach i gynigwyr ar y rhestr hir er mwyn cynorthwyo a chryfhau eu cais llawn.

Caiff y Datganiadau o Ddiddordeb eu hasesu gan y panel cynghori arbenigol a bydd pob lle sydd ar y rhestr hir yn cael £40,000 i'w gefnogi i ddatblygu ei gais llawn. Ar ôl asesu'r cais llawn, bydd y panel cynghori arbenigol yn ymweld â hyd at bedwar lle sydd ar y rhestr fer ac yn eu gwahodd i roi cyflwyniad. Bydd y panel wedyn yn cyflwyno ei argymhelliad ar gyfer enillydd Dinas Diwylliant y Deyrnas Unedig 2025 i weinidogion DCMS, a bydd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn gwneud y penderfyniad terfynol. Mae rhagor o fanylion am y broses a'r meini prawf asesu ar gael isod.

Dyddiadau allweddol

Cyhoeddi'r rhestr hir: diwedd Medi 2021

Dyddiad cau ar gyfer y ceisiadau llawn: 26 Ionawr 2022

Cyhoeddi'r rhestr fer: Mawrth 2022

Ymweld â llefydd sydd ar y rhestr fer: disgwylir y bydd hyn yn digwydd ym mis Mawrth 2022 (i'w gadarnhau, gan ystyried y cyfnod cyn etholiadau awdurdodau lleol a'r Pasg)

Cyhoeddi'r enillydd: Mai 2022

Canllawiau

Nodau ac amcanion Dinas Diwylliant y Deyrnas Unedig

Mae Dinas Diwylliant y Deyrnas Unedig yn foment drawsnewidiol yn nhwf lle ac mae cystadleuaeth eleni yn gyfle i lefydd a chymunedau roi diwylliant a chreadigrwydd wrth galon eu cynlluniau twf ac adfer ar ôl COVID. Mae llwyddiant yr enillwyr blaenorol, sef Derry/Londonderry, Hull, a'r flwyddyn gyffrous ac uchelgeisiol sydd ar y gweill yn Coventry, yn dangos sut gall y rhaglen lywio canlyniadau economaidd a chymdeithasol cadarnhaol, datblygu partneriaethau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol sy'n para, a dod â phobl at ei gilydd. Gall hefyd gryfhau cymunedau, creu ymdeimlad o le ac ysbrydoli balchder lleol, dathlu a rhoi hwb i gelfyddydau a diwylliant lleol a llawr gwlad, a denu buddsoddiad a thwristiaeth newydd.

Mae cystadleuaeth Dinas Diwylliant y Deyrnas Unedig yn rhan allweddol o ddarpariaeth ehangach y DCMS i roi mwy o gyfleoedd ledled y Deyrnas Unedig – gan ddefnyddio diwylliant fel catalydd ar gyfer buddsoddi mewn llefydd i sbarduno twf economaidd ac adfywio, hyrwyddo cydlyniant cymdeithasol a meithrin balchder mewn llefydd a'u gwneud yn fwy deniadol i fyw a gweithio ynddynt ac i ymweld â nhw.

Mae'r meini prawf asesu ar gyfer cystadleuaeth Dinas Diwylliant y Deyrnas Unedig 2025 wedi cael eu datblygu i adlewyrchu'r nodau a'r amcanion canlynol.

Bydd angen i Ddinas Diwylliant y Deyrnas Unedig 2025:

1. Mynegi gweledigaeth sy'n defnyddio diwylliant i drawsnewid lle drwy adfywio cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd, gan ei wneud yn fwy deniadol i fyw, gweithio, ymweld a buddsoddi ynddo.
2. Sbarduno twf
 - Creu effaith economaidd gynaliadwy o'r rhaglen, drwy fuddsoddi ac arloesi mewn diwylliant a chreadigrwydd.
 - Datblygu partneriaethau lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol parhaus a denu buddsoddiad i ddatgloi twf cynhwysol.
3. Arloesi
 - Dangos rhagoriaeth ac arloesi diwylliannol ac artistig, gan gynnwys defnyddio technoleg arloesol i arddangos a galluogi creadigrwydd ac ymgysylltiad diwylliannol i ffynnu ledled y Deyrnas Unedig.
 - Creu rhaglen ddiwylliannol sy'n dangos arferion gorau yn y Deyrnas Unedig ac sy'n dangos rhagoriaeth ddiwylliannol drwy'r diwydiannau celf, treftadaeth a chreadigol yn y Deyrnas Unedig.
 - Datblygu partneriaethau traws-sector newydd, gan gynnwys archwilio cydweithrediaid rhwng gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg, y celfyddydau a mathemateg.

4. Estyn allan ar draws y Deyrnas Unedig ac yn fyd-eang
 - Cynnwys a gweithio gydag amrywiaeth eang o bartneriaid lleol, cenedlaethol a rhyngwladol.
 - Cryfhau a dathlu cysylltiadau a pherthnasoedd â llefydd ar draws pedair gwlad y Deyrnas Unedig.
 - Cyfrannu'n frwd at enw da'r Deyrnas Unedig yn fyd-eang am raglenni o safon, datblygiad artistig a chydweithio rhyngwladol.
 - Gwella proffil yr ardal a'r Deyrnas Unedig i gynulleidfaoedd domestig a rhyngwladol fel lle i fyw, ymweld, gweithio neu fuddsoddi ynddo.
 - Hyrwyddo'r ddinas fel cyrchfan ddiwylliannol, denu ymwelwyr newydd a rhai sy'n dychwelyd a hybu twristiaeth ar draws y rhanbarth, gan bwysleisio ei lle penodol yn y Deyrnas Unedig.
 - Darparu rhaglen ddiwylliannol o safon sy'n datblygu ac yn ehangu cryfderau ac asedau lleol ac sydd hefyd yn arddangos cysylltiadau a nodweddion cyffredin gyda llefydd yn y Deyrnas Unedig a thramor.
 - Meithrin arweinyddiaeth ac uchelgais yn y diwydiannau diwylliannol a chreadigol sy'n gystadleuol ar lefel fyd-eang.

5. Manteisio i'r eithaf ar fanteision cymdeithasol buddsoddi mewn diwylliant
 - Grymuso cymunedau lleol i siapio'r cynnig a'r rhaglen, gan greu prosiectau a chynlluniau etifeddiaeth ar y cyd â chymunedau lleol, artistiaid ar lawr gwlad a diwydiannau creadigol, ac arweinwyr rhanbarthol a lleol.
 - Hyrwyddo cydlyniant cymdeithasol, gan ddenu ac ysbrydoli cymunedau lleol i wirfoddoli.
 - Cynyddu cyfleoedd cynhwysol ar gyfer datblygu sgiliau creadigol ac ar gyfer llwybrau at yrfaoedd creadigol a diwylliannol.
 - Archwilio sut gall diwylliant gyfrannu at dargedau iechyd a llesiant.
 - Dod â phobl at ei gilydd, creu ymdeimlad o le ac ysbrydoli balchder lleol.
 - Datblygu arweinyddiaeth, llywodraethu a phartneriaethau sy'n seiliedig ar leoedd ac sy'n gynrychioliadol ac yn amrywiol.
 - Datblygu ffyrdd arloesol o agor mynediad at ddiwylliant, gan ddenu amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd, ymwelwyr a chyfranogwyr.

6. Manteisio i'r eithaf ar yr etifeddiaeth, a bod â'r adnoddau i gyflawni
 - Cyflwyno cynlluniau realistig a chredadwy ar gyfer rheoli, cyllido a chyflawni'r rhaglen a'i hetifeddiaeth.
 - Cryfhau arweinyddiaeth, partneriaethau a gallu lleol.
 - Meithrin y gwaith o ddatblygu ecosystem gref o sefydliadau diwylliannol a chreadigol sydd â'u gwreiddiau yn y gymuned, gyda chysylltiadau â phartneriaid pwysig eraill a strategaeth ddiwylliannol hirdymor ar gyfer y ddinas.
 - Dangos dull cadarn a chlir sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer manteisio i'r eithaf ar yr etifeddiaeth a gwerthuso effeithiau Dinas Diwylliant y Deyrnas

Unedig, gan gynnwys drwy gynyddu a gwella'r gwaith o gynhyrchu a chasglu data.

7. Gwreiddio cynaliadwyedd amgylcheddol

- Datblygu cynlluniau realistig i wreiddio arferion cynaliadwy mewn rhaglenni creadigol ac ymarferol ac etifeddiaeth.
- Hyrwyddo ac ysbrydoli cyfrifoldeb amgylcheddol.

Beth rydym yn ei olygu wrth sôn am ddiwylliant?

Rydym yn disgwyl i ymgeiswyr ddangos cryfderau'r ddarpariaeth ddiwylliannol yn yr ardal, cydnabod ei chyfyngiadau, a'i huchelgais a'i photensial i wella. Nid ydym am ragnodi beth yw diwylliant ac rydym yn annog pob cynigydd i ddiffinio ei ddiwylliant ei hun. Eich lle chi fydd cyflwyno'r achos dros ba weithgareddau sydd wedi eu cynnwys yn eich rhaglen ddiwylliannol arfaethedig a chyfleu'r newidiadau sylweddol rydych chi'n bwriadu eu cyflawni. Rydym yn disgwyl i raglenni allu apelio at amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd a chynyddu cyfranogiad mewn gweithgareddau diwylliannol yn ogystal â chyfrannu at dwf economaidd, adfywio, cydlyniant cymunedol, iechyd a llesiant.

Anogir ymgeiswyr i gynnwys gweithgareddau sy'n cwmpasu diffiniad eang o ddiwylliant a'i ddiwydiannau creadigol yn ogystal ag archwilio creadigrwydd ar draws sectorau gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg, y celfyddydau a mathemateg. Mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol: celfyddydau gweledol, llenyddiaeth; cerddoriaeth; theatr; dawns; celfyddydau cyfun; pensaernïaeth; crefftau; dylunio; treftadaeth a'r amgylchedd hanesyddol a naturiol; amgueddfeydd ac orielau; llyfrgelloedd ac archifau; ffilm, darlledu a'r cyfryngau; gemau fideo; animeiddio; effeithiau gweledol ac arbennig; ffotograffiaeth a chyhoeddi.

Pa lefydd all wneud cais?

Mae'r panel cynghori arbenigol yn asesu'r Datganiadau o Ddiddordeb a gyflwynwyd gan 20 o lefydd ledled y DU. Byddant yn argymhell rhestr hir o lefydd i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon eu cymeradwyo. Gwahoddir y llyfydd hyn i gyflwyno cais llawn yn unol â'r canllawiau hyn.

Teitl, nod masnach a brand 'Dinas Diwylliant y Deyrnas Unedig 2025'

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cael ei ddynodi fel 'Dinas Diwylliant y Deyrnas Unedig 2025'. Byddwn yn dyfarnu grantiau i bob dinas sydd ar y rhestr hir sydd wedi llwyddo yn y cam datgan diddordeb, ond nid yw'r teitl ei hun yn golygu y bydd yr enillydd yn cael cyllid yn awtomatig. Fodd bynnag, mae'r DCMS yn awyddus i fanteisio i'r eithaf ar lwyddiant ac effaith yr enillydd, a bydd yn rhoi cyngor, cefnogaeth a phŵer ymgynnull. Mae hyn yn cynnwys meithrin cysylltiadau ym mhob rhan o'r llywodraeth a gyda chyirff hyd braich o'r

BBC i Arts Council England. Bydd memorandwm cyd-ddealltwriaeth yn cael ei roi ar waith a fydd yn amlinellu'r bartneriaeth rhwng y DCMS a'r lle buddugol.

Oherwydd COVID-19, bydd blwyddyn Coventry fel Dinas Diwylliant yn mynd rhagddi rhwng mis Mai 2021 a mis Mai 2022. Bydd seremoni drosglwyddo ar ddiwedd blwyddyn Coventry yn cael ei chynnal ym mis Mai 2022 a bydd y cynigydd buddugol newydd yn gallu defnyddio teitl a nod masnach 'Dinas Diwylliant y Deyrnas Unedig' o fis Mai 2022 nes bydd yr enillydd nesaf yn ei hawlio ar ddiwedd blwyddyn deitl 2025. Fel arfer, mae gan y llefydd buddugol dair blynedd i baratoi ar gyfer eu blwyddyn gyntaf ac felly mae'n bosibl y bydd Dinas Diwylliant y Deyrnas Unedig 2025 yn dymuno cael yr hyblygrwydd ar gyfer y gystadleuaeth hon, i ddechrau ei rhaglen ddiwylliannol unrhyw bryd rhwng mis Ionawr a mis Mai 2025 a pharhau i 2026 yn unol â hynny.

Rydym wedi cyhoeddi canllawiau brandio i bob cynigydd sy'n amlinellu sut mae llefydd sy'n cynnig, sy'n ennill ac sy'n gadael etifeddiaeth yn gallu defnyddio'r teitl a'r nod masnach yn y blynyddoedd sy'n arwain at 2025 ac ar ôl hynny.

Y cyfryngau a chyhoeddusrwydd

Rydym yn disgwyl y bydd cyhoeddusrwydd sylweddol yn gysylltiedig â'r broses dethol, gyda sylw ar lefel leol a chenedlaethol. Byddwn yn datblygu cynllun cyfathrebu yn seiliedig ar gerrig milltir allweddol fel llunio rhestr hir, llunio rhestr fer a phrosesau dethol terfynol.

Rhannu data a thryloywder

Rydym am i broses cystadleuaeth Dinas Diwylliant y Deyrnas Unedig 2025 fod mor dryloyw â phosibl ac rydym yn eich annog i feddwl am y modd rydych chi'n ymgynghori, yn ymgysylltu ac yn cyfathrebu â thrigolion drwy gydol y broses.

Mae rhaglen Dinas Diwylliant y Deyrnas Unedig a'i gwerthusiad yn hanfodol i'n dealltwriaeth gynyddol o effeithiau cymdeithasol ac economaidd buddsoddi diwylliannol. Bob pedair blynedd, rydym yn cael cryn dipyn o wybodaeth a data. Ar ôl dyfarnu teitl 2025, byddwn yn adneuo pob cais (datganiadau cychwynnol o ddiddordeb a cheisiadau llawn) yn yr Archifau Cenedlaethol, archif gyhoeddus swyddogol Llywodraeth y Deyrnas Unedig, er mwyn rhoi mynediad rhydd i ymchwilyr a'r cyhoedd at y cyfoeth hwn o fanylion. Rydym yn deall y gall rhywfaint o ddata fod yn fasnachol sensitif, felly byddwn yn gweithio gyda phob cynigydd i ddarparu fersiynau wedi'u golygu yn ôl yr angen, gyda fersiynau llawn ar gael ar ôl 20 mlynedd yn unol â Deddf Cofnodion Cyhoeddus 1958.

Rydym am i bob cynigydd elwa ar y broses, a gwyddom fod llawer o gynigwyr blaenorol wedi mynd ymlaen i gyflawni elfennau o'u cynigion er iddynt fod yn aflwyddiannus yn y gystadleuaeth hon. Bydd y DCMS yn gweithio gyda chynigwyr aflwyddiannus, cyrff hyd braich y DCMS a sefydliadau allweddol eraill sy'n ymwneud â rhaglen Dinas Diwylliant y Deyrnas Unedig i nodi meysydd lle gallwn gynnig cefnogaeth.

Cyllid

Rydym yn sylweddoli bod costau ynghlwm wrth ddatblygu a chyflwyno cais llawn a bod COVID-19 wedi rhoi pwysau sylweddol ar adnoddau lleol. Am y tro cyntaf, byddwn yn dyfarnu grantiau o £40,000 i bob cynnig sydd ar y rhestr hir. Bydd y llefydd sy'n llwyddo i gael lle ar y rhestr hir yn cael 4 mis i ddatblygu dadansoddiad economaidd cadarn, cynllun cyflawni a llywodraethu credadwy, yn enwedig ar gyfer cynlluniau prosiect cyfalaf, gwneud gwaith ymchwil ac ymgynghori, a chasglu data. Dylid gallu graddio'r ceisiadau llawn er mwyn - mewn egwyddor - gallu bwrw ymlaen â'r elfennau a chyflawni'r effeithiau i ryw raddau, ni waeth pa mor llwyddiannus yw'r cais yn y gystadleuaeth hon.

Bwriad y grant £40,000 yw darparu ffynhonnell hyblyg o gyllid y gellir ei defnyddio mewn ffordd sy'n benodol i le, a fydd yn amlwg yn cryfhau eich cais llawn ac yn helpu i ddatblygu cynllun graddadwy, er enghraifft ar:

- Ymchwil a datblygu, gan gynnwys ystyriaethau ymarferoldeb
- Ymgynghori
- Adnoddau dynol
- Casglu data
- Arbenigedd masnachol ar gyfer cynlluniau cyfalaf.

Nid ydym yn gallu gwarantu cyllid cenedlaethol ('gwobr ariannol') gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig ar gyfer y cais buddugol. Bydd disgwyl i'r lle llwyddiannus gyflwyno cynnig i'r cronfeydd cyllido sy'n bodoli'n barod. Rydym yn cydnabod y gall hyn siapiro'r cynigion, ac y bydd angen mynd ati fesul cam o bosibl i roi'r rhaglen ar waith, yn dibynnu ar ymgyrch codi arian lwyddiannus. Byddem yn disgwyl i chi gysoni eich adnoddau a'ch cyllidebau lleol eich hun i gyflawni eich rhaglen, a bydd angen i chi ystyried sut i wneud y defnydd gorau o ffynonellau cyllid posibl eraill, fel gwerthu tocynnau neu nawdd.

Dysgu gwersi gan Ddinasoedd Diwylliant blaenorol y Deyrnas Unedig

Datblygwyd rhaglen Dinas Diwylliant y Deyrnas Unedig gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig mewn ymgynghoriad â'r gweinyddiaethau datganoledig i adeiladu ar lwyddiant Lerpwl fel Prifddinas Diwylliant Ewrop 2008. Ers hynny, teimlwyd ei heffaith gadarnhaol yn [Derry-Londonderry](#), [Hull](#) a [Coventry](#). Mae llawer o lefydd eraill wedi bod yn rhan o'r gystadleuaeth hon, ac mewn mentrau eraill, fel [Lerpwl](#), yn sgil bod yn Brifddinas Diwylliant Ewrop yn 2008, [Arddangosfa Fawr Gogledd Lloegr](#), cystadleuaeth Bwrdeistref Diwylliant [Llundain](#) a menter Bwrdeistref Diwylliant ar batrwm mwy cylchol ledled [Rhanbarth Dinas Lerpwl](#).

Mae'r sefydliadau a'r unigolion sy'n cefnogi rhaglen Dinas Diwylliant y Deyrnas Unedig yn barod i gefnogi'r broses cynnig, ond bydd angen iddynt roi'r un chwarae teg i bawb ac ni fyddant yn gallu ymrwymo'n benodol i unrhyw un lle. Gallwch ddisgwyl cael cyngor cyson a strategol gan y sefydliadau hyn. Mae hyn yn cynnwys y rhyngweithio y gallwch ddisgwyl ei gael gydag aelodau'r panel.

Rhaid datgan unrhyw wrthdaro rhwng buddiannau a bydd yr holl lefydd sy'n gwneud cynnig yn cael yr un chwarae teg o ran y rhyngweithio rhyngddyn nhw a'r panel. Ni fydd aelodau'r panel yn gallu cefnogi na chynghori unrhyw gais unigol mewn unrhyw ffordd, gan gynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol.

Rydym yn parhau i weithio gyda Coventry i gynnull pawb sydd â phrofiad ac arbenigedd mewn paratoi cynigion, trefnu a sbarduno newid sy'n cael ei arwain gan ddiwylliant dros y degawd diwethaf er mwyn rhannu eu gwybodaeth a'u cyngor. Bydd gweithdy technegol ar y broses ymgeisio lawn yn cael ei gynnal ar gyfer y cynigwyr sydd wedi cyrraedd y rhestr hir yn ystod hydref 2021. Manylion i ddilyn. Os oes gennych chi gwestiynau, cysylltwch â ukcityofculture2025-competition@dcms.gov.uk.

Mae'n bosibl y bydd gennych chi ddiddordeb hefyd mewn gwyllo Uwchgynhadledd Polisi a Gwerthuso Diwyllianol Coventry, a gynhaliwyd ar-lein ar 24-25 Mehefin gan [Rwydwaith Dinasoedd Diwylliant yr AHRC](#) mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Dinas Diwylliant Coventry a phrifysgolion Warwick, Coventry a Hull. Mae modd gweld holl sesiynau'r Uwchgynhadledd [yma](#).

Cyfrannu at ein hamcanion amgylcheddol a sero net

Mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd yw un o ymdrechion mwyaf taer ein hoes ni, sy'n galw am weithredu beiddgar gan bob un ohonom. Mae ein trefi a'n dinasoedd ar flaen y gad o ran newid yn yr hinsawdd ac mae diwylliant yn arf pwerus i fynd i'r afael â heriau amgylcheddol. Dylai cynigion am Ddinas Diwylliant y Deyrnas Unedig 2025 allu dangos cyfraniad at amcanion sero net neu ystyriaethau amgylcheddol ehangach ledled y Deyrnas Unedig.¹ Dylai rhaglenni fod yn seiliedig ar arferion gorau carbon isel neu ddi-garbon, mabwysiadu a chefnogi technoleg lân lle bo'n bosibl a chefnogi'r cadwyni cyflenwi a sgiliau sy'n tyfu i gyrraedd sefyllfa sero net lle bo hynny'n bosibl.

Dylai cynigion hefyd ystyried sut gall y rhaglen weithio gyda'r amgylchedd naturiol i gyflawni ei hamcanion gan o leiaf ystyried effaith y rhaglen ar asedau naturiol ein gwlad.

Rydym am i bob cynigydd ar gyfer teitl Dinas Diwylliant y Deyrnas Unedig 2025 gysylltu polisi a strategaeth ddiwyllianol ac amgylcheddol, a gwreiddio cynaliadwyedd amgylcheddol yn eu cynlluniau - o ddigwyddiadau a thrafnidiaeth i raglennu creadigol a hyrwyddo cyfrifoldeb amgylcheddol. Mae Julie's Bicycle, un o bartneriaid Arts Council England, wedi cydweithio ar [amrywiaeth o adnoddau, adroddiadau ac astudiaethau achos](#) sy'n dangos dinasoedd ledled y byd yn dod yn fwy cynaliadwy gyda diwylliant yn sbardun iddynt.

¹ [Papur gwyn ar ynni y Deyrnas Unedig](#); [Yr Alban Sero Net](#); [Strategaeth Ynni Gogledd Iwerddon](#); [Y llwybr tuag at Gymru sero net](#)

Cysondeb â mentrau eraill y llywodraeth

Mae'r gystadleuaeth yn ategu mentrau eraill Llywodraeth y Deyrnas Unedig, fel [Cronfa Codi'r Gwastad](#), [Cronfa Adnewyddu Cymunedol y Deyrnas Unedig](#), yn ogystal â'r rhaglenni ar gyfer Lloegr yn unig fel [y Gronfa Trefi](#) a'r [Gronfa Datblygu Diwylliannol](#), i greu cyfleoedd ym mhob rhan o'r Deyrnas Unedig a helpu dinasoedd a'u hardaloedd cyfagos i ddatblygu'n well. Efallai y bydd cynigwyr o Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn awyddus i ystyried bod yn gyson â phriod fentrau penodol yn y gwledydd hynny, er enghraifft nodau ac uchelgeisiau [Strategaeth Diwylliant yr Alban](#), a [Rhaglen Iywodraethu a Datganiad Ilesiant](#) Llywodraeth Cymru.

Rydym yn annog cynigwyr i ddangos sut mae eu cynnig yn gyson â chronfeydd a mentrau neu'n adeiladu arnynt, yn ogystal â sut mae modd ei integreiddio mewn cynlluniau twf cynhwysol lleol a rhanbarthol. Dylai'r cynigion fynd ati'n frwd i ategu, yn hytrach na dyblygu neu gystadlu â chyllid sydd ar gael yn barod neu gyllid sydd wedi'i drefnu yn eu hardaloedd. Ni ddylai ardaloedd ystyried cystadleuaeth Dinas Diwylliant y Deyrnas Unedig fel cyfle i gau unrhyw fwlch mewn cyllid nad yw cronfeydd eraill y llywodraeth yn ei lenwi. Ni ddylai lleoliadau nad ydynt wedi derbyn cymorth drwy gronfeydd eraill deimlo eu bod dan anfantais wrth wneud cais am gystadleuaeth Dinas Diwylliant y Deyrnas Unedig.

Rydym yn awyddus i gefnogi'r holl gynigwyr i wireddu cyfraniad diwylliant at adfer ac adnewyddu. Mae'r [Cynllun Adfer Ymholiadau am Ddinasoedd Diwylliannol](#) yn edrych ar yr effaith mae Compactau Diwylliannol wedi ei chael ac yn dangos manteision datblygu arweinyddiaeth strategol a gweithredu cydlynol. Mae [Adroddiad Boundless Creativity](#) a gyhoeddwyd gan y DCMS a Chyngor Ymchwil y Celfyddydau a Dyniaethau ym mis Gorffennaf 2021 hefyd yn gwneud argymhellion ar gyfer llwybr tuag at adfer ar ôl y pandemig a thwf cynaliadwy'r sectorau diwylliannol a chreadigol, gan ddefnyddio a manteisio ar y ffyrdd arloesol a medrus o weithio sydd wedi bod, ac yn parhau i fod, yn nodweddiadol o fywyd diwylliannol yn ystod COVID-19.

Y broses cynnig a dethol

Bwriad y broses dethol yw sicrhau bod y cynnig gorau posibl ledled y Deyrnas Unedig yn cael ei ddewis ar gyfer Dinas Diwylliant y Deyrnas Unedig 2025. Dylai'r broses dethol arwain at ddewis a dynodi ardal sydd â gweledigaeth uchelgeisiol ac unigryw o'r hyn y bydd yn ei gyflawni yn 2025 ac wedi hynny; ond hefyd un sydd â chynlluniau credadwy a realistig i wireddu ei gweledigaeth.

Bydd y broses cynnig ei hun yn arwain at fanteision ehangach. Er mai dim ond un ardal fydd yn cael ei dynodi ar gyfer 2025, bydd y broses o ddatblygu'r cynigion yn meithrin datblygu syniadau a phartneriaethau a all barhau, p'un a yw cynnig yn llwyddiannus ai peidio. Rydym yn eich annog i feddwl sut byddwch yn adeiladu ar y broses a pha elfennau o'ch cynnig y byddwch chi'n gallu bwrw ymlaen â nhw, hyd yn oed os na chewch chi eich dewis yn Ddinas Diwylliant y Deyrnas Unedig 2025.

Cam 1

1. Daeth Datganiadau o Ddiddordeb ar gyfer dod yn Ddinas Diwylliant y Deyrnas Unedig 2025 i law'r DCMS gan lefydd o bob cwr o'r Deyrnas Unedig. Mae ein panel cynghori arbenigol wrthi'n asesu'r Datganiadau o Ddiddordeb hyn yn erbyn y meini prawf asesu a gyhoeddwyd yn [Datganiadau o Ddiddordeb: canllawiau i gynigwyr](#).
2. Bydd y panel yn argymhell rhestr hir o ymgeiswyr er mwyn i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wneud penderfyniad. Ein nod yw cyhoeddi'r rhestr hir ym mis Medi 2021.

Cam 2

3. Bydd y llefydd ar y rhestr hir yn mynd ymlaen i'r ail gam ac yn cael grant o £40,000 yr un i gryfhau eu cais llawn.
4. Gofynnir i'r llefydd ar y rhestr hir lenwi cais llawn, sy'n gofyn cwestiynau'r Datganiad o Ddiddordeb yn fanylach. Gofynnir hefyd am ddata sy'n ymwneud ag effeithiau cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd yn ogystal â chynllun darparu a chyllido manwl a chredadwy, yn enwedig ar gyfer unrhyw gynlluniau prosiect cyfalaf. Bydd gan ymgeiswyr hyd at bedwar mis i lenwi'r cais llawn. Mae manylion y cais llawn a'r templedi i'w defnyddio wedi'u nodi isod.
5. Bydd y panel yn asesu ceisiadau'r llefydd ar y rhestr hir yn erbyn y meini prawf craidd yn Nhabl 1 isod ac yn argymhell rhestr fer i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

Cam 3

6. Bydd y panel yn ymweld â'r llefydd sydd ar y rhestr fer. Bydd y panel hefyd yn gwahodd y llefydd ar y rhestr fer i roi cyflwyniad a chymryd rhan mewn trafodaethau manwl am eu gweledigaeth a'u cynlluniau.

Cam 4

7. Bydd y panel yn cyflwyno eu hargymhelliad ar gyfer enillydd Dinas Diwylliant y Deyrnas Unedig 2025 i weinidogion y DCMS, a bydd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn gwneud y penderfyniad terfynol. Byddwn yn rhoi adborth i bob lle sydd ar y rhestr hir.
8. Bwriad y DCMS yw cyhoeddi Dinas Diwylliant y Deyrnas Unedig 2025 ar ddiwedd rhaglen Coventry ym mis Mai 2022.

Amserlen gryno

Cam	Dyddiadau
Rhestr hir	Cyhoeddi: Medi 2021 Gweithdy technegol: Hydref 2021 Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau llawn: 26 Ionawr 2022
Rhestr fer	Cyhoeddi: Mawrth 2022

	Disgwyl ymweliadau: Mawrth 2022
Hysbysu'r enillydd a chyhoeddi pwy ydyw	Mai 2022

Y panel cynghori arbenigol

Pwrpas y panel cynghori arbenigol yw asesu datganiadau o ddiddordeb a cheisiadau llawn Dinas Diwylliant y Deyrnas Unedig 2025 yn erbyn y meini prawf craidd a gyhoeddwyd, a darparu arbenigedd annibynnol a chyngor gwrthrychol i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Wrth gynnwyl y panel hwn, y bwriad yw elwa o ystod eang o brofiad ledled y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol wrth fuddsoddi mewn diwylliant er mwyn sicrhau nifer o ganlyniadau diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd. Bydd hyn yn sicrhau mai'r ddinas fwyaf llwyddiannus fydd yn cael ei dewis fel Dinas Diwylliant y Deyrnas Unedig 2025, ac yn rhoi cefnogaeth ac adborth adeiladol i bob cynigydd am y teitl. Bydd y panel hefyd yn ymweld â'r llefydd llwyddiannus ar y rhestr fer yn 2022 ac yn bod yn gyfaill beirniadol i'r ddinas fuddugol.

Aelodaeth

Syr Phil Redmond (Cadeirydd)
Claire McColgan (Dirprwy Gadeirydd)
Lynne Best (cynrychiolydd Gogledd Iwerddon)
Nick Capaldi (cynrychiolydd Cymru)
Roberta Doyle (cynrychiolydd yr Alban)
Martyn Henderson (cynrychiolydd Lloegr)
Andrew Barnett
Rebecca Matthews
Aideen McGinley
Tateo Nakajima
Jamie Njuko - Goodwin

Mae'r DCMS a holl aelodau'r panel wedi ymrwmo i sicrhau tegwch llwyr ym mhroses y gystadleuaeth. Bydd unrhyw wrthdaro rhwng buddiannau yn cael ei ddatgan wrth fynd ymlaen a bydd y rhyngweithio rhwng y panel a'r llefydd sy'n gwneud cynnig yn gwbl deg ac yn cynnwys ysgrifenyddiaeth panel y DCMS. Ni fydd aelodau'r panel yn gallu cefnogi na chynghori unrhyw gais penodol mewn unrhyw ffordd, gan gynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol.

Sut i gyflwyno eich cais llawn

Anfonwch eich cais llawn a therfynol drwy e-bost at

ukcityofculture2025-competition@dcms.gov.uk erbyn 23:59 ar 26 Ionawr 2022.

Gofynion fformat

Rhaid i'ch dogfen cynnig lawn a therfynol ddilyn y canllawiau isod:

- Rhaid i'r cynigion fod ar ffurf PDF.
- Ni chaiff cynigion fod yn fwy na 30 tudalen A4 heb gynnwys y tablau a'r atodiadau, na ddylent fod yn fwy na 20 tudalen A4 i gyd.
- Gall cynigion gynnwys lluniau a graffeg i wella'r deunydd, ond bydd y rhain yn cael eu cynnwys yng nghyfanswm y tudalennau a ganiateir.
- Ni ddylai maint y ffont a ddefnyddir fod yn llai na 10.
- Rhaid i gynigion ddilyn y strwythur a nodir yn Nhabl 2 ond nid oes angen iddynt ateb y cwestiynau mewn trefn ar yr amod bod yr holl gynnwys gofynnol yn cael ei gwmpasu naill ai yn y brif ddogfen **neu** yn yr atodiadau. Nid oes angen ateb cwestiynau procio'r meini prawf asesu yn uniongyrchol, ond maent yn ganllaw i'r hyn y bydd y panel yn chwilio amdano.

Meini prawf asesu

Bydd y panel cynghori arbenigol yn asesu'r ceisiadau llawn yn erbyn yr un meini prawf a ddefnyddir ar gyfer y broses Datganiad o Ddiddordeb, fel y nodir yn Nhabl 1. Mae'r meini prawf wedi cael eu datblygu ar sail nodau ac amcanion rhaglen Dinas Diwylliant y Deyrnas Unedig. Canllaw yn unig yw'r ystod sgoriau isod i helpu gyda'r asesiad. Bydd y panel yn gwneud argymhellion i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Bydd adborth yn cael ei roi i bob cynnig sy'n cyrraedd y rhestr hir.

Tabl 1 - meini prawf asesu

Cymhwysedd: Ffocws canolog clir a hunaniaeth gydlynol i'r ardal, gyda digon o seilwaith diwylliannol, digidol a chymdeithasol (neu gynlluniau creadadwy i'w datblygu) i ddarparu'r mas critigol er mwyn i raglen flwyddyn o hyd fod yn llwyddiannus.

Creu lle: Gweledigaeth gref ac unigryw, sy'n dathlu treftadaeth ac yn defnyddio diwylliant i ddod â chymunedau at ei gilydd, meithrin ymdeimlad o le ac ysbrydoli balchder lleol.

Adferiad a thwf: Buddsoddi mewn diwylliant a chreadigrwydd i ysgogi adferiad ac adnewyddu ac i ddatgloi twf cynhwysol lleol parhaus.

Codi'r Gwastad: Dylai cynigion ddangos yr angen am adfywio cymdeithasol ac economaidd a sut bydd bod yn Ddinas Ddiwylliant y Deyrnas Unedig yn ceisio mynd i'r afael â hyn, gan greu lle y mae pobl eisiau byw, gweithio, ymweld a buddsoddi ynddo.

Arloesi: Rhagoriaeth ac arloesi diwylliannol ac artistig, gan gynnwys defnyddio technoleg arloesol i arddangos, galluogi creadigrwydd a chyrraedd cynulleidfaoedd

newydd.

Cydweithio yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol: Dathlu'r cysylltiadau rhwng llefydd ar draws pedair gwlad y Deyrnas Unedig yn ogystal â thramor, a mynd ar drywydd partneriaethau a chydweithrediadau newydd.

Partneriaeth: Partneriaeth rhwng llywodraeth leol, sefydliadau traws-sector ac unigolion sy'n cefnogi ac yn cyfrannu at y cynnig, gan gynnwys ar draws gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg, y celfyddydau a mathemateg.

Ehangu mynediad a chyfranogiad mewn diwylliant: Partneriaethau, llywodraethu ac arweinyddiaeth strategol, seiliedig ar leoedd sy'n amrywiol ac yn grymuso cymunedau lleol i baratoi'r cynnig a'r rhaglen. Datblygu ffyrdd arloesol o agor mynediad at ddiwylliant, gan ddenu amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd, ymwelwyr a chyfranogwyr.

Etifeddiaeth: Cynllun uchelgeisiol a chredadwy i gynnal effaith y rhaglen ar ôl 2025.

Cynaliadwyedd: Cynlluniau realistig i wreiddio arferion amgylcheddol gynaliadwy mewn rhaglenni ac etifeddiaeth, dangos cyfraniad at amcanion sero net y Deyrnas Unedig, yn ogystal â gweithredu amgylcheddol sy'n ysbrydoli'r cyhoedd.

Tabl 2 – cwestiynau'r cais llawn

Adran	Cwestiynau	Cwestiynau procio'r meini prawf asesu (does dim rhaid i chi ateb pob un o'r rhain yn uniongyrchol oherwydd efallai y bydd rhai yn cael eu cwmpasu mewn adrannau gwahanol – mae'n arwydd o'r hyn y bydd y panel yn chwilio amdano)
Ble a pham: y weledigaeth ar gyfer eich ardal chi	<ul style="list-style-type: none">Beth yw'r weledigaeth gyffredinol ar gyfer rhaglen Dinas Diwylliant y Deyrnas Unedig yn eich ardal chi?Pam mae angen i'ch ardal chi weld y math o adfywio a allai ddeillio o fod yn Ddinas Diwylliant y Deyrnas Unedig?	<ul style="list-style-type: none">A oes gan yr ardal hunaniaeth glir, neu'r potensial i greu un?A yw'r ardal a ddewiswyd yn gydlynol, gyda ffocws canolog ac yn gredadwy fel lleoliad ar gyfer rhaglen o ddigwyddiadau diwylliannol sy'n para am flwyddyn?A yw'r ardal yn hygyrch fel cyrchfan i

	<ul style="list-style-type: none"> • Sut a pham mae diwylliant yn ddull allweddol o adfywio yn eich ardal chi? <p>Ewch ati i lenwi Tab 1 yn Atodiad A i nodi'r lleoliad lle bydd effaith ddisgwyliedig Dinas Diwylliant y Deyrnas Unedig i'w gweld yn amlwg a dangos lefel yr angen yn fwy manwl.</p>	<p>ymwelwyr? Er enghraifft, sut gellid clystyru digwyddiadau er mwyn ei gwneud hi'n haws ymweld â'r lle?</p> <ul style="list-style-type: none"> • A yw'r cynnig yn dangos pam mae angen teitl Dinas Diwylliant y Deyrnas Unedig ar yr ardal a sut gallai elwa ar gael y teitl? • A yw'r weledigaeth yn uchelgeisiol, yn wahanol ac wedi ei chysylltu'n glir â threftadaeth, natur a chymeriad yr ardal?
<p>Beth: eich cynlluniau'n fanwl</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Beth yw prif themâu ac elfennau eich rhaglen Dinas Diwylliant y Deyrnas Unedig? • Beth yw'r prif asedau diwylliannol yn eich ardal chi y byddwch yn adeiladu arnynt a sut byddwch yn manteisio i'r eithaf ar eich asedau presennol? • Beth yw'r prif fylchau, gwendidau a chyfleoedd nad ydynt wedi'u datblygu'n ddigonol yn eich darpariaeth ddiwylliannol a sut byddwch chi'n defnyddio teitl Dinas Diwylliant y Deyrnas Unedig i fynd i'r afael â'r rhain? • Pa sefydliadau, rhwydweithiau a phartneriaethau diwylliannol lleol, cenedlaethol a rhyngwladol fydd yn ymwneud â chyflwyno eich rhaglen? • Pa artistiaid lleol, cenedlaethol a rhyngwladol ac ymarferwyr diwylliannol fydd yn cael eu gwahodd i gymryd rhan yn eich rhaglen? • Disgrifiwch eich cynlluniau i 	<ul style="list-style-type: none"> • A yw'r themâu a'r elfennau'n cynnig digon o gyfle ar gyfer rhaglen amrywiol sy'n apelio'n eang at amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd? • Beth sy'n wahanol am y cynlluniau? • Sut maen nhw'n dangos arloesedd, gan gynnwys defnyddio technoleg arloesol, a rhagoriaeth ddiwylliannol ar draws amrywiaeth o ffurfiau celfyddydol, diwydiannau creadigol a gweithgareddau diwylliannol? • A oes cynlluniau i hyrwyddo rôl diwylliant ar lefel genedlaethol a chyflwyno adegau o sylw cenedlaethol, gan gysylltu dinasyddion a chynulleidfaoedd ledled y Deyrnas Unedig? • A fydd y rhaglen yn cryfhau ac yn dathlu cysylltiadau a pherthnasoedd â llefydd ar draws pedair gwlad y Deyrnas Unedig? • A fydd y rhaglen yn cyfrannu'n frwd at enw da'r Deyrnas Unedig yn fyd-eang am raglenni o safon, datblygiad artistig a chydweithio rhyngwladol? • A fydd y rhaglen yn gwella proffil yr ardal a'r Deyrnas Unedig i gynulleidfaoedd domestig a rhyngwladol fel lle i fyw, ymweld, gweithio neu fuddsoddi ynddo?

	<p>wreiddio cynaliadwyedd amgylcheddol yn eich gweithgareddau.</p> <p>Dylech gynnwys rhaglen amlinellol ddangosol ar gyfer 2025 (a'r cyfnod cyn hynny os dymunwch chi) a'r prif leoliadau yn eich ardal yn Atodiad B (i) a (ii) i'ch cynnig.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • A oes amrywiaeth o bartneriaethau traws-sector wedi cael eu nodi, gan gynnwys ar draws gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg, y celfyddydau a mathemateg? • Pa mor realistig ac effeithiol yw'r cynlluniau i wreiddio a hyrwyddo cynaliadwyedd amgylcheddol mewn rhaglenni creadigol ac ymarferol ac o ran etifeddiaeth? A yw'r cynlluniau'n hyrwyddo ac yn ysbrydoli cyfrifoldeb amgylcheddol? • A oes cynlluniau i sicrhau cydbwysedd da rhwng partneriaid allanol a lleol, gan gynnwys partneriaid artistig ar lawr gwlad? • A yw'r cynnig yn cynnwys cynlluniau ar gyfer rhaglen wirfoddoli?
<p>Hanes blaenorol</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Pa hanes blaenorol o drefnu a chyflawni rhaglenni arwyddocaol o ddigwyddiadau diwylliannol sydd gennych chi a'ch partneriaid (rhochwch enghreifftiau sy'n dangos natur, hyd, mesurau llwyddiant ac amcangyfrif o gost digwyddiadau/gweithgareddau)? • A yw'r cynnig yn adeiladu ar hanes amlwg o lwyddo o ran defnyddio diwylliant i adfywio a sicrhau cydlyniant cymunedol, iechyd a llesiant? • Sut ydych chi wedi defnyddio'r hyn rydych chi wedi'i ddysgu o'r hanes blaenorol hwn o ddatblygu eich cais i fod yn Ddinas Diwylliant y Deyrnas Unedig? 	<ul style="list-style-type: none"> • Pa mor gryf yw'r hanes blaenorol o ddarparu rhaglenni arwyddocaol o ddigwyddiadau? • Pa mor eang yw'r profiad hwn? Neu a oes cynlluniau clir i recriwtio a llenwi unrhyw fylchau mewn arbenigedd? • Pa mor ddiweddar oedd y profiad hwn? • A yw tîm y cynnig wedi dysgu gwersi o ddigwyddiadau mawr naill ai yn eu hardal nhw neu yn rhywle arall? • A yw'r ardal wedi elwa ar fuddsoddiad blaenorol gan y llywodraeth? Beth oedd y canlyniadau?

	<p>Dylech gynnwys rhestr o ddigwyddiadau a gweithgareddau blaenorol sydd wedi cael eu rheoli gennych chi a'ch partneriaid dros y 5 mlynedd diwethaf yn Atodiad C i'ch cynnig.</p>	
<p>Effaith</p>	<ul style="list-style-type: none"> ● Pa newidiadau diwylliannol, economaidd a chymdeithasol sylweddol y bydd Dinas Diwylliant y Deyrnas Unedig yn eich helpu i'w cyflawni yn eich ardal chi? ● Sut byddwch chi'n trefnu neu'n blaenoriaethu'r newidiadau sylweddol hyn? ● Pa effaith fyddai Dinas Diwylliant y Deyrnas Unedig yn ei chael ar y sectorau diwylliannol a chreadigol yn eich ardal chi? ● A yw'n glir sut bydd diwylliant yn cyfrannu at dwf economaidd cyffredinol yr ardal yn ystod y flwyddyn a thu hwnt? ● Sut byddwch chi'n defnyddio grym diwylliant a chreadigrwydd i arwain at newid cymdeithasol parhaol? <p>Dylech ategu eich disgrifiad drwy lenwi tabiau 2, 3 a 4 ar y ddalen ddata economaidd a chymdeithasol yn Atodiad A.</p>	<ul style="list-style-type: none"> ● Sut mae'r cynnig yn defnyddio'r cyfle hwn i roi diwylliant wrth galon eu hadferiad economaidd a chymdeithasol yn y tymor canolig i'r tymor hir yn sgil COVID-19? ● A yw'r effaith ddisgwyliedig yn gredadwy ac yn fesuradwy? (Er enghraifft, a oes tystiolaeth neu Theori Newid i'w chefnogi? Cyfle i gynnwys hyn yn Atodiad E) ● A yw'r economi ddiwylliannol a chreadigol bresennol yn yr ardal yn darparu sylfaen ddigonol ar gyfer adeiladu arni? ● A oes cynlluniau i atgyfnerthu arweinyddiaeth ddiwylliannol sy'n seiliedig ar lefydd yn yr ardal; cynyddu buddsoddiad preifat, gan gynnwys buddsoddwyr cymdeithasol, yn y sectorau creadigol a diwylliannol; gwella rhwydweithiau cydweithredol o sefydliadau; neu ddatblygu doniau creadigol? ● A fydd y cynlluniau'n sbarduno galw ym maes twristiaeth; yn hybu'r economi ymwelwyr; yn cynnig mwy o gyfleoedd ar gyfer arbrofi, arloesi a chyfnewid sgiliau; yn creu cyfleoedd ar gyfer rhaglenni sgiliau strategol a doniau lleol; yn ysgogi twf drwy ryngweithio â sectorau eraill fel lletygarwch; yn creu a diogelu swyddi; yn ysgogi twf mewn busnesau creadigol? ● A oes cynlluniau i ddatblygu ffyrdd

		<p>arloesol o agor mynediad at ddiwylliant, gan ymgysylltu ag amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd, ymwelwyr a chyfranogwyr, yn cynnwys drwy wirfoddoli?</p> <ul style="list-style-type: none"> • A fydd cynlluniau'n gwneud lle yn fwy deniadol ac yn gwella ei adeiladwaith ffisegol; yn cynyddu cydlyniant cymdeithasol a chymunedol; balchder/bodlonrwydd mewn ardal; neu weithgarwch dinesig ac ymgysylltu diwylliannol? • A fydd diwylliant yn cyfrannu at dargedau amgylcheddol, iechyd a llesiant y lle a'r ardal gyfagos?
Pwy	<ul style="list-style-type: none"> • Pwy sy'n arwain eich cynnig? • Pwy arall sy'n ymwneud â datblygu a chefnogi'r cynnig? • Pa gamau a gymerir i ehangu'r amrywiaeth o ran arweinyddiaeth, llywodraethu a phartneriaethau? <p>Dylech gynnwys rhestr o'r holl sefydliadau ac unigolion sydd wedi bod yn ymwneud â datblygu'r cynnig a nodi eu rôl yn y gwaith datblygu yn Atodiad D i'ch cynnig.</p> <p>Opsiwn i gynnwys canlyniadau unrhyw ymgynghoriad a gynhaliwyd.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • A oes corff atebol dynodedig yn arwain y cynnig? • A oes tystiolaeth glir bod amrywiaeth o sefydliadau ac unigolion traws-sector yn cefnogi'r cynnig ac yn cyfrannu ato, gan gynnwys yr awdurdod lleol? • Beth yw'r cynlluniau i ddenu cefnogaeth a buddsoddiad eang a pharhaus gan y sector preifat ar gyfer y cynnig? • Sut bydd y cynnig yn sicrhau ei fod yn cynrychioli trigolion yr ardal? • Pa rôl fydd gan y gymuned a'r trydydd sector o ran llunio a chyflwyno'r rhaglen ar gyfer eu hardal? • A yw'r cynnig yn cyfateb i'r strategaethau diwylliant, twristiaeth neu dwf presennol ar gyfer yr ardal? • A yw'n glir sut bydd y cynnig yn agor mynediad drwy sicrhau amrywiaeth o ran arweinyddiaeth, llywodraethu a phartneriaethau?
Etifeddiaeth	<ul style="list-style-type: none"> • Sut bydd Dinas Diwylliant y Deyrnas Unedig 2025 yn 	<ul style="list-style-type: none"> • Pa dystiolaeth allwch chi ei darparu i ddangos dealltwriaeth glir o lle'r

	<p>gadael ei hôl yn eich ardal am byth?</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sut byddwch chi'n cadw ac yn aildefnyddio'r arbenigedd o reoli rhaglen lwyddiannus Dinas Diwylliant y Deyrnas Unedig yn y dyfodol? • Sut byddwch chi'n cynnal ac yn datblygu'r partneriaethau cyllido a darparu a sefydlwyd ar gyfer Dinas Diwylliant y Deyrnas Unedig yn y dyfodol? 	<p>ydych chi arni, lle'r ydych chi'n bwriadu bod yn 2026 ac ymrwymiad bod gennych chi a'ch partneriaid gynlluniau clir i ymrwymo adnoddau nid yn unig i gynnal ond hefyd i ymateb i'r twf diwylliannol sy'n debygol o ddeillio o'ch cyfnod fel Dinas Ddiwylliant y Deyrnas Unedig yn y blynyddoedd dilynol?</p> <ul style="list-style-type: none"> • A yw'r cynnig yn nodi rôl cefnogaeth a buddsoddiad gan y sector preifat mewn cynllunio etifeddiaeth? • A yw'r cynlluniau a'r disgwyliadau ar gyfer y dyfodol yn uchelgeisiol, yn gredadwy ac yn realistig? • A oes cynlluniau amserol i greu tîm i ddatblygu a chyflawni'r strategaeth etifeddiaeth?
<p>Gwerthuso a Monitro</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Sut byddwch chi'n mesur ac yn gwerthuso effaith Dinas Diwylliant y Deyrnas Unedig 2025? <p>Atodwch Theori Newid yn Atodiad E.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Sut byddwch chi'n adeiladu ar y gwaith mae Coventry a deiliaid blaenorol y teitl wedi'i wneud i werthuso eu heffeithiau fel Dinas Diwylliant y Deyrnas Unedig? Er enghraifft, sut byddech chi'n mynd ati i gasglu data er mwyn i ni barhau i ddeall yn well beth gall ymyriadau diwylliannol sy'n seiliedig ar lefydd ei gyflawni? • A oes cynlluniau wedi'u nodi ar gyfer lledaenu allbynnau ymchwil? • A oes Theori Newid i gefnogi'r gwaith o werthuso a monitro, gan gynnwys arwydd o fetrigau?²
<p>Parodrwydd a risg</p>	<ul style="list-style-type: none"> • A yw eich cynnig i fod yn Ddinas Diwylliant y Deyrnas Unedig wedi ei gynnwys mewn unrhyw strategaeth leol neu ranbarthol? • A oes gennych chi'r capasiti i 	<ul style="list-style-type: none"> • A yw'r cynnig wedi ei integreiddio mewn cynlluniau twf lleol? • A yw'r cynnig yn amlinellu sut mae'r gweithgarwch arfaethedig yn cydfynd â chynlluniau a chronfeydd eraill y llywodraeth sy'n canolbwyntio ar

² Mae rhagor o ganllawiau ar baratoi Theori Newid ar gael yn Llyfr Magenta Trysorlys EM <https://www.gov.uk/government/publications/the-magenta-book> tudalen 24, adran 2.2.1

	<p>fod yn Ddinas Diwylliant y Deyrnas Unedig? Beth yw eich strwythur darparu?</p> <ul style="list-style-type: none"> • Beth yw eich cynlluniau ar gyfer rheoli ymwelwyr, sicrhau capasiti digonol a bodloni gofynion mynediad a gofynion eraill? • Beth yw eich prif risgiau a mesurau lliniaru? <p>Dylech gynnwys dogfennau llywodraethu a rheoli eich prosiect, gan gynnwys asesiad risg yn Atodiad F. Nid oes angen i hyn fod yn hirach na 3 tudalen.</p>	<p>greu llefydd?</p> <ul style="list-style-type: none"> • A oes sector diwylliannol sydd wedi ei gysylltu'n dda, partneriaethau sy'n bodoli'n barod ac arweinyddiaeth glir? Neu gynlluniau i wella? • A yw'r seilwaith digidol ar waith neu'n cael ei ddatblygu i wireddu uchelgeisiau? • Sut byddwch chi'n sicrhau bod gan eich seilwaith twristiaeth a thrafnidiaeth y gallu i ddelio ag ymwelwyr i'ch ardal a'i fod yn gallu bodloni gofynion mynediad a gofynion eraill yr holl ymwelwyr? • A oes cynlluniau i greu tîm yn gyflym i baratoi a chyflawni'r strategaeth? • A oes trefniadau llywodraethu a rheoli prosiect clir? • A yw'r broses ar gyfer datblygu'r rhaglen wedi ei hystyried yn glir? • A nodwyd y risgiau allweddol? • A yw'r mesurau lliniaru arfaethedig yn realistig ac yn gredadwy?
<p>Cyllid a Chyllideb</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Faint ydych chi'n disgwyl y bydd yn ei gostio i gyflawni eich rhaglen arfaethedig? • Faint o gyllid ychwanegol ydych chi'n disgwyl y bydd ei angen yn ychwanegol at y lefelau presennol o gefnogaeth i ddiwylliant yn eich ardal? • O ble rydych chi'n disgwyl cael y cyllid hwn a faint ydych chi'n disgwyl ei godi o bob ffynhonnell (ee cyrff cyhoeddus, nawdd a rhoddion unigol a chorfforaethol, refeniw gwerthiant ar gyfer digwyddiadau)? • Pa ymrwymadau ydych chi eisoes wedi'u sicrhau o ran 	<ul style="list-style-type: none"> • Pa mor realistig yw'r amcangyfrifon o gostau? • A oes cynllun credadwy ar gyfer codi arian a sicrhau nawdd? • Pa dystiolaeth sydd o ymrwymiad i lenwi'r bwlch cyllido a gweithredu fel gwarantwr? • A yw'r gyllideb wedi'i hamlinellu yn ôl blwyddyn ariannol, gan gynnwys dyrannu ar gyfer gwerthuso a chynllunio etifeddiaeth? • A yw'r gyllideb yn cynnwys amcanion a cherrig milltir clir ym mhob blwyddyn ariannol? • A yw'r gyllideb yn cynnwys tystiolaeth bod tuedd optimistiaeth wedi'i chynnwys (yn enwedig ar gyfer gwaith cyfalaf), yn ogystal â chynllunio wrth gefn yn rhagolygon y

	<p>cyllid ar gyfer eich rhaglen Dinas Diwylliant y Deyrnas Unedig?</p> <ul style="list-style-type: none"> • Pwy fyddai'n gweithredu fel gwarantwr ariannol ar gyfer eich rhaglen Dinas Diwylliant y Deyrnas Unedig? <p>Dylech gynnwys cyllideb amlinellol ar gyfer y rhaglen/y flwyddyn yn Atodiad G (i-iii) i'ch cynnig.</p>	gyllideb?
--	--	-----------

Tabl 3: Ystod sgoriau

Ystod sgoriau	Disgrifiad
Bodlonwyd (cryf) - 4	<i>Mae'r cais yn bodloni'r meini prawf ac yn dangos potensial i wneud cyfraniad sylweddol at y nodau a'r amcanion</i>
Bodlonwyd - 3	<i>Mae'r cais yn bodloni'r meini prawf</i>
Bodlonwyd yn rhannol - 2	<i>Dim ond rhai o'r meini prawf sydd wedi'u bodloni</i>
Potensial - 1	<i>Nid yw'r cais yn bodloni'r meini prawf ond mae'n dangos potensial i wneud hynny</i>
Heb fodloni - 0	<i>Nid yw'r cais yn bodloni'r meini prawf.</i>

Atodiad A

Atodiad A - nodiadau esboniadol

Mae'r Ddalen ddata wedi'i rhannu'n bum tab – Lefel yr Angen, Effaith Economaidd, Effaith Ymgysylltu, Economi Ymwelwyr ac Effaith ar Sgiliau. Rhowch sylw i'r cwestiynau ym mhob tab ond canllaw yn unig yw'r templedi, sydd i'w llenwi os yw'r wybodaeth ar gael ac yn berthnasol. Rydym yn cydnabod mai amcangyfrifon ac arwyddion yn unig yw'r rhifau hyn a'u bod yn ategu eich cynnig yn hytrach nag yn ganolog iddo.

Tab un - Lefel yr Angen

Bydd yr wybodaeth a'r dystiolaeth ategol y gofynnir amdani yn y tab hwn yn eich galluogi i nodi'r lleoliad lle bydd effaith ddisgwyliedig Dinas Diwylliant y Deyrnas Unedig i'w gweld. Rydym yn cydnabod efallai na fydd llefydd yn perthyn yn daclus i ardaloedd awdurdodau lleol, felly byddwn yn defnyddio dull hyblyg o ddeall economïau lleol.

Bydd yr adran hon hefyd yn eich galluogi i ddarparu gwybodaeth a thystiolaeth ategol i'ch helpu i ddangos yr amodau economaidd a chymdeithasol yn eich ardal darged sy'n berthnasol i nodau eich cynigion.

Gallai'r enghreifftiau o ddangosyddion economaidd a chymdeithasol posibl y gallech fod eisïau eu hystyried gynnwys: amddifadedd (gan ddefnyddio'r mynegai perthnasol ar gyfer [Cymru](#), [Lloegr](#), [yr Alban](#) neu [Ogledd Iwerddon](#)); cynhyrchiant isel (Gwerth ychwanegol gros fesul awr a weithiwyd), bylchau mewn sgiliau (Cyfran y boblogaeth oed gweithio heb unrhyw gymwysterau ar lefel RQF), ymgysylltiad diwylliannol isel, effeithiau mawr o ran COVID-19 ac ati.

Tab Dau - Effaith economaidd

Rhan A: Busnesau a sefydliadau a gefnogir

Mae'r cwestiwn hwn yn eich galluogi i ddarparu rhagor o dystiolaeth feintiol ac ansoddol yn ogystal â nifer y swyddi uniongyrchol a'r sefydliadau a gefnogir y gofynnir amdanynt yn yr adrannau canlynol sy'n eich helpu i ddangos sut bydd Dinas Diwylliant yn helpu i gefnogi twf lleol.

Yma, gallwch gynnwys tystiolaeth o swyddi anuniongyrchol neu wedi'u hysgogi fydd yn cael eu creu o ganlyniad i'r swyddi uniongyrchol y gofynnir i chi eu cofnodi yn y tabl yn yr adran isod.

Efallai y byddwch hefyd am wneud cysylltiad â strategaethau twf lleol. Hefyd, efallai y byddwch am dynnu sylw at sut gallai'r sector diwylliannol, gan gynnwys y gadwyn gyflenwi, elwa o Ddinas Diwylliant.

Gofynnwyd y cwestiynau ar y ddalen ddata er mwyn i ni allu canfod nifer, math a maint y busnesau sy'n cael eu cefnogi. Mae Tabl 4 isod yn dangos dosbarthiad busnes yn ôl maint cyflogaeth. Dylai ymgeiswyr fod yn glir ynghylch y math o fusnesau sy'n cael eu cefnogi. Dylai ateb cynhwysfawr:

- Nodi maint ac ôl-troed y sefydliadau diwylliannol a chreadigol lleol sydd eisoes yn bodoli yn yr ardal a sut bydd Dinas Diwylliant y Deyrnas Unedig yn helpu'r sefydliadau hynny.
- Bod yn gyson â busnesau diwylliannol a chreadigol presennol a dangos sut bydd y gronfa hon yn gwella twf y sector diwylliannol a chreadigol lleol.

Tabl 4:

<i>*Dylai maint y busnes fod yn seiliedig ar ddosbarthiad safonol maint cyflogaeth fel y'i diffinnir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.</i>	
<i>Maint y Busnes</i>	<i>Nifer y gweithwyr</i>
Micro	0 – 9 o weithwyr
Bach	10 – 49 o weithwyr
Canolig	50 – 249 o weithwyr
Mawr	250+ o weithwyr

Rhan B: Swyddi a gefnogir

I'n helpu ni i ddeall yr effaith economaidd, rhwch fanylion y swyddi uniongyrchol rydych chi'n gobeithio eu creu o ganlyniad i fod yn Ddinas Diwylliant y Deyrnas Unedig. Dim ond un ffordd o asesu effaith economaidd yw nifer y swyddi sy'n cael eu creu a'u diogelu. I'n helpu ni i ddeall cynaliadwyedd gweithgarwch economaidd, rhwch ddata ar nifer y swyddi fydd yn cael eu creu am dair blynedd ar ôl eich blwyddyn fel Dinas Diwylliant.

Dylai'r wybodaeth rydych chi'n ei rhoi ar y ddalen ddata gynnwys dim ond swyddi uniongyrchol fydd yn cael eu creu o ganlyniad i'r buddsoddiad hwn. Gallwch sôn am swyddi anuniongyrchol neu wedi'u hysgogi fydd yn cael eu creu, ochr yn ochr ag unrhyw dystiolaeth i gyfiawnhau eich ymateb, yn y cwestiwn cyntaf yn yr adran effaith economaidd, *Sut bydd Dinas Diwylliant y Deyrnas Unedig yn helpu i wella amodau economaidd a chryfhau'r economi leol?*

Er mwyn sicrhau bod modd cymharu'r data, dylid mynegi'r holl ffigurau swyddi mewn termau cyfwerth ag amser llawn (FTE).

Mae'r tabl yn y templed yn gofyn i chi gofnodi swyddi newydd a gaiff eu creu bob blwyddyn am y flwyddyn cyn Dinas Diwylliant y Deyrnas Unedig 2025, y flwyddyn ei hun a'r tair blynedd dilynol. Dylech nodi'n glir yn y tabl y cyfnod y bydd y swyddi hyn yn parhau. Rydym yn rhoi enghraifft isod o sut gallech wneud hyn:

- **Enghraifft:** Mae 1 swydd uniongyrchol newydd FTE yn cael ei chreu yn y flwyddyn 2024/25 ac mae'n para tan y flwyddyn 2027/28 o leiaf. Dylid adlewyrchu hyn yn y tabl fel a ganlyn:

Nifer y swyddi uniongyrchol (FTE) fydd yn cael eu creu				
2024/25	2025/26	2026/27	2027/28	2028/29
1	1	1	1	0

Rhan C: Rhagor o fanylion am yr Effaith ar Swyddi

Mae data am weithluoedd y Diwydiannau Creadigol a'r sector diwylliannol yn y Deyrnas Unedig³ yn dangos bod pobl ifanc rhwng 16 a 24 oed, sy'n dweud bod ganddynt anabledd, pobl BAME, menywod a phobl o grwpiau economaidd-gymdeithasol llai breintiedig, yn cael eu tangynrychioli'n sylweddol. Mae'r pandemig yn debygol o fod wedi effeithio ymhellach ar yr anghysondebau presennol hyn. Mae'r anghysondeb mwyaf i'w weld mewn cefndiroedd economaidd-gymdeithasol gyda dim ond 8% o'r swyddi yn y diwydiannau creadigol a'r sector diwylliannol yn cael eu llenwi gan bobl mewn grwpiau economaidd-gymdeithasol llai breintiedig o gymharu â 34% yn y gweithlu ehangach.

Bydd yr wybodaeth y byddwch chi'n ei rhoi ar y ddalen ddata yn ein galluogi i fesur sut bydd eich cynnig yn creu strategaethau i sicrhau y bydd eich rhaglenni creu swyddi, cefnogi busnes a datblygu sgiliau yn mynd i'r afael â thangynrychiolaeth yng nghyd-destun eich lle.

Tab tri – Effaith ymgysylltu

³ <https://www.gov.uk/government/statistics/dcms-sectors-economic-estimates-2019-employment>

Mae'r adran hon yn eich galluogi i ddangos effaith eich cynigion o safbwynt ymgysylltiad gan ystyried presenoldeb, yn ogystal â chyfranogiad ehangach. Mae cyfranogiad yn cyfeirio at ddigwyddiadau lle mae'r unigolion sy'n cyfranogi yn chwarae mwy o ran, fel cyfranogwyr, yn hytrach na gwylwyr (cynulleidfa).

Rhowch dystiolaeth sy'n cefnogi nifer yr ymweliadau neu'r cyfranogiad ehangach rydych chi'n disgwyl ei ddenu i'r digwyddiad/rhaglen. Yn ogystal â'r niferoedd, efallai y byddwch hefyd am dynnu sylw at a fydd grwpiau difreintiedig (sef y rheini sydd â llai o ddiddordeb mewn diwylliant neu sydd â nodweddion difreintiedig eraill) yn elwa'n arbennig o'ch cynnig.

Mae croeso i chi ddefnyddio'r adran nodiadau i roi manylion unrhyw dybiaethau a nodi cyfran y gynulleidfa a fydd yn dod o'r ardal darged.

Tab pedwar – Economi ymwelwyr

Mae'r adran hon yn gofyn i chi ddangos yr hwb rydych chi'n ei ragweld i'ch economi ymwelwyr yn 2025 a thu hwnt, o ran ymweliadau a gwariant ychwanegol, o ganlyniad i fod yn Ddinas Diwylliant y Deyrnas Unedig.

Tab pump - Sgiliau

Gofynnwyd y cwestiynau hyn er mwyn rhoi cyfle i gynigwyr ddangos sut bydd y math o sgiliau a ddarperir gan y cynnig yn helpu i fynd i'r afael â bwlch sgiliau presennol yn yr ardal. Hefyd, sut gallai sgiliau o'r fath arwain at weithwyr â sgiliau uwch.

Atodiad B (i) - rhaglen amlinellol - hyd at ac yn ystod 2025 (rhowch wybodaeth am eich prif ddigwyddiadau, hyd at 15 i gyd)

Thema	Disgrifiad o'r digwyddiad/ comisiwn	Lleoliad	Amseru a hyd	Costau darparu a thocynnau	Presenoldeb disgwyliedig	Cyrhaeddiad - lleol/ rhanbarthol/ ledled y DU/ rhyngwladol

(ii) Lleoliadau a capasiti

Enw'r lleoliad	Disgrifiad	Capasiti

Dylech gynnwys rhestr o'r digwyddiadau a'r gweithgareddau sydd wedi cael eu rheoli gennych chi a'ch partneriaid dros y 5 mlynedd diwethaf yn **Atodiad C** i'ch cynnig.

Dylech gynnwys rhestr o'r holl sefydliadau ac unigolion sydd wedi bod yn ymwneud â datblygu'r cynnig a nodi eu rôl yn y gwaith datblygu yn **Atodiad D** i'ch cynnig.

Dylech gynnwys Theori Newid i gefnogi eich cynnig yn **Atodiad E**.

Atodiad F Asesu risg

Rhif	Disgrifiad o'r risg	Tebygolrwydd (isel, canolig, uchel)	Effaith (isel, canolig, uchel)	Lliniaru
1				
2				
3				

Atodiad G (i) costau - gwariant ar gynnal Dinas Diwylliant y Deyrnas Unedig 2025

Dylai'r tabl hwn gynnwys adnoddau sydd wedi'u neilltuo'n benodol i gynnal Dinas Diwylliant y Deyrnas Unedig 2025 yn unig ac sydd o dan reolaeth y sefydliad darparu

	2022	2023	2024	2025	2026
Gweinyddu/Rheoli					
Marchnata					
Rhaglen ddiwylliannol					
Cyfanswm					

(ii) Ffynonellau cyllid ar gyfer y gyllideb ar gyfer cynnal Dinas Diwylliant y Deyrnas Unedig 2025

Dylai'r tabl hwn gynnwys ffynonellau cyllido fydd yn cael eu neilltuo i gynnal Dinas Diwylliant y Deyrnas Unedig 2025 yn unig ac sydd o dan reolaeth y sefydliad darparu.

Ffynhonnell	2022	2023	2024	2025	2026
Llywodraeth leol					
Cyllid cyhoeddus arall					
Nawdd gan y sector preifat/masnachol					
Ymddiriedolaethau					
Gwerthu tocynnau					
Buddsoddiad arall (ee cyllido torfol)					
Cyfanswm					

(iii) Statws y cyllid arfaethedig

Ffynhonnell	Swm £m	Amodau i'w bodloni	Statws presennol Heb drafod/ wrthi'n trafod/ ymrwymo mewn egwyddor/ ymrwymo	Pryd a sut bydd y cyllid yn dod yn bendant	Risg y bydd (a) y swm yn llai (b) dim cyllid
<i>ee Cronfa Dreftadaeth y Loteri</i>	<i>£3m</i>	<i>Oes</i>	<i>Ymrwymo mewn egwyddor</i>		<i>(a) Isel (b) Dim</i>